

noble traditions of Your late revered Father, King Edward VII, so that Peace and Love may rule supreme in Your widespread Dominions and Goodwill serve as the bond of union between Your vast Empire and the other countries of the world for the common good of mankind and the Glory of God.

(Welsh Translation.)

At ei Ardderchocaf Fawrhydi.

Rhynged bodd i'n Brenhin grasusaf,

Dymunwn ni, Maer, Henaduriaid a Bwrdeisdrefwyr Tref Aberystwyth yn Sir Geredigion gyflwyno i'ch Mawrhydi ein hymlyniad serchocaf a'n teyrngarwch mwyaf didwyll i chwi ac i'w grasusaf Fawrhydi y Frenhines, ac i roddi croeso calon i'ch Mawrhydi a'n Tywysog Cymru a'r Dywysoges Mair ar eich hymweliad ag Aberystwyth i gyflawni y weithred bwysig o osod Carreg Sylfaen Llyfrgell Genedlaethol Cymru.

Cymerodd Bwrdeisdref Aberystwyth ran flaenllaw iawn ym mudiad Addysg Cymru sydd a'i firwyth i'w ganfod yn arbenig yn sefydliad Prifysgol Cymru, ac yn y flwyddyn 1896 fe urddwyd ei ddiweddar Fawrhydi'r Brenhin Iorwerth VII (Tywysog Cymru yr adeg honno) yn Ganghellydd iddi yn ein Tref—cartref y Coleg Cenedlaethol cyntaf i Gymru. Mae i'r ymweliad fythgofiadwy honno eto le cynnes iawn yng nghalon Gwerin Cymru, ac y mae llwyddiant diameu Prifysgol Cymru i'w briodoli i fesur mawr i'r cymhorth dderbyniodd oddiwrth cefnogaeth garedig a nawdd rasusol y Brenhin.

Yn ostyngedig cyflwynwn i'ch Mawrhydi ein llongyfarchiadau cywiraf ar eich Coroniad, ac hefyd i'w Uchelder Tywysog Cymru ar ei Urddiad yng Nghastell henafol Caernarfon ac ystyrir hyn gennym ni yn brawf o ddyddordeb difwlch y Teulu Brenhinol yn llwyddiant ein Tywysogaeth.

Eiddwnwn i'ch Mawrhydi gofio y bydd eich hymweliad fythgofiadwy bresennol yn foddion i angerddoli teimlad teyrngarol hen genedl y Cymry tuag at yr Orsedd Frenhinol ac i'w hysbrydoli yn y dyfodol i sylweddoli ei delfrydau puraf ac uwchaf.

Hyderwn o galon wir y bydd eich Hymweliad a Glannau Ban Ceredigion yn fwyniant digymysg i'ch Mawrhydi ac i'r Uchelderau Brenhinol. Ein gweddi daer yw, drwy râd Duw Hollalluog, y cewch eich harbed yn hir i lywodraethu drosom, ac i ddwyn i ben draddodiadau clodwio eich Tad, y diweddar Fawrhydi Frenhin Iorwerth VII mal y byddo cariad a heddwch yn teyrnasu yn eich Tiriogaethau eang, ac y byddo i ewyllys da fod yn sail undeb rhwng eich Ymherodraeth Fawr a Theyrnasoedd eraill y byd—er lles cyffredin dynolryw a gogoniant Duw Dâd.

To which Address His Majesty was pleased to return the following gracious Answer:—

I am very pleased to receive this generous expression of the loyalty and devotion of the Borough of Aberystwyth, and My pleasure is greatly increased by the warmth of the welcome which you have extended to the Queen

and to the Prince of Wales and Princess Mary. I can assure you, on their behalf as well as My own, that this visit to your beautiful town will be treasured amongst Our happy recollections.

Aberystwyth is justly proud of being the seat of the oldest University College in Wales, and it is now to be further distinguished as the home of the National Library. It merits these honours both by its happy situation as a gateway between North and South Wales, and by the important part it has played in the history of Welsh education.

I thank you for your kindly reference to the visit of My beloved Father and for your appreciation of His unflinching care for the interests of the University. It was a great pleasure to Me to be privileged to carry on His work as Chancellor.

(Welsh Translation.)

Y mae yn wir hyfrydwch gennyf dderbyn y mynegiad hael hwn o deyrngarwch ac ymlyniad Bwrdeisdref Aberystwyth, ac y mae Fy moddhad wedi cynhyddu yn fawr oblegid cynhesrwydd y croesaw a estynasoch i'r Frenhines ac i Dywysog Cymru a'r Dywysoges Mary. Sicrhaf chwi, ar eu rhan hwy yn gystal ag ar Fy rhan fy hun, y caiff yr ymweliad hwn a'ch tref brydferth ei drysori genym ymysg Ein hadgofion hapus.

Y mae Aberystwyth yn ymfalchïo yn deg oblegid ei bod yn eisteddle'r Coleg Prifathrofaol hynaf yng Nghymru, ac yn awr wele hi i gael ei henwogi ymhellach fel cartref y Llyfrgell Genedlaethol. Teilynga'r dref yr holl anrhydedd hwn oherwydd ei sefyllfa hapus fel mynedfa rhwng Gogledd a Deheudir Cymru a hefyd oherwydd y rhan bwysig a chwareuwyd ganddi yn hanes Addysg Cymru.

Yr wyf yn ddiolchgar i chwi am eich cyfeiriad caredig at ymweliad Fy anwyl Dad ac am eich gwerthfawrogiad o'i ofal di-ball am les y Brifysgol. Hyfrydwch mawr i Mi oedd cael y fraint o ddwyn ymlaen ei waith fel Canghellor.

CARDIGAN COUNTY COUNCIL.

To Their Most Excellent Majesties the King and Queen.

May it please Your Majesties,

We, the County Council for the administrative County of Cardigan, respectfully take leave to offer to Your Majesties a sincere expression of our loyal devotion and attachment and to tender to Your Majesties and Their Royal Highnesses the Prince of Wales and Princess Mary a most cordial welcome on your visit to this County to perform the important function of laying the foundation-stone of the National Library of Wales.

As Council of the County in which the Library and the oldest constituent College of the University of Wales are situate, we recognise with profound gratitude the interest which Your Majesties have evinced in the University of Wales and in the Welsh National Library.

We most respectfully desire to present our sincere congratulations to Your Majesties upon Your Coronation, and also to His Royal Highness the Prince of Wales upon His Investiture in the ancient and historic Castle of Carnarvon.